# HYSBYSIAD O GYNNIG

## GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYNAU CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD)
## (A5119 FFORDD ABER A FFYRDD AMRYWIOL YN YSTÂD DDIWYDIANNOL PARC ABER, Y FFLINT)
## (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 08) 202-

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Adran 82 (2) (a) a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Rhan IV Atodlen 9 y Ddeddf, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a heb Gyfyngiad) 2023, i gyflwyno:

a) Terfyn cyflymder o 30mya ar:

**A5119 Ffordd Aber, Y Fflint**
O bwynt 153 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd ag Earl Street, i'w chyffordd â'r A548, Y Fflint.

**Ystâd Ddiwydiannol Parc Aber, Y Fflint**
O'i chyffordd â'r A5119 Ffordd Aber, i'r gyffordd â Hen Ffordd Llundain, Y Fflint.

**Ffyrdd Dienw yn Ystâd Ddiwydiannol Parc Aber, Y Fflint**
O'i chyffordd â'r A5119 Ffordd Aber, i gyfeiriad y de-orllewin gan gynnwys y ffordd gylchol.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r Terfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Heb Gyfyngiad) 2023 yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, ynghyd ag Atodlenni Mapiau yn dangos y darnau o ffyrdd y mae'r cynnig yn effeithio arnynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Stryd yr Eglwys, y Fflint, CH6 5BD yn ystod oriau swyddfa neu gellir eu gweld ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig, neu gellir gofyn am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r rhesymau dros eu gwneud, yn ysgrifenedig at yr unigolyn yn y cyfeiriad isod neu trwy e-bostio transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk (gan ddyfynnu'r cyfeirnod SS/JB/RL/30mph/08) erbyn dydd Gwener 18 Ebrill 2025.

Dyddiedig Dydd Gwener 28 Mawrth 2025



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF

Mae hyn yn disodli'r cynnig blaenorol, a hysbysebwyd ar 15 Tachwedd 2024.